



Urdd



Dwi'n Gymro, Dwi'n Gymraes

Mae 'na ddwyrain, mae 'na orllewin
Mae 'na ogledd ac mae 'na dde
Mae mynyddoedd a dyffrynnoedd
Yn codi a disgyn dros y lle

Mae 'na lynnoedd ac mae 'na afonydd
Mae 'na draethau aur ger y môr
Pentrefi a dinasoedd
Canwn yn un côr

Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes
A dyma fi yn codi fy llais
Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes
Dwi'n caru fy ngwlad, dwi'n caru fy iaith

Mae 'na hanes ac mae 'na chwedlau
Mae 'na arwyr di bendraw
Mae 'na groeso ar bob aelwyd
Mae pawb yn mynnu estyn llaw

Ac mae'n rhaid i ni ei thrysori
Rhoddwyd hon i ti ac i mi
Fe'i carwn a'i gwarchodwn
Cenwch gyda ni

Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes
A dyma fi yn codi fy llais
Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes
Dwi'n caru fy ngwlad, dwi'n caru fy iaith

Cymru, gweiddwch i bendraw'r byd
Cymru, gweiddwch bawb ynghyd

Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes
A dyma fi yn codi fy llais
Dwi'n Gymro, dwi'n Gymraes
Dwi'n caru fy ngwlad, dwi'n caru fy iaith

(eto)